




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau
CLWYD
Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Y Rheol 85 Mlynedd

Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Pwynt i'w nodi.....	3
Beth yw'r Rheol 85 Mlynedd?.....	3
Ydych chi'n cael eich diogelu o dan y Rheol 85 Mlynedd?	4
Os cawsoch eich geni rhwng 1 Ebrill 1956 a 31 Mawrth 1960	4
Os cawsoch eich geni ar 1 Ebrill 1960 neu ar ôl hynny.....	4
Faint o ostyngiad fydd yn weithredol?	4
A fydd y Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol os ydych yn ymddeol o 55 oed?.....	5
Beth os cewch eich diswyddo neu os oes rhaid i chi ymddeol ar sail effeithlonrwydd?	5
Beth os oes rhaid i chi ymddeol o ganlyniad i afiechyd?	6
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	6
Ymwadiad.....	6

Cyflwyniad

Yr oed ymddeol arferol o dan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yw un ai eich oed Pensiwn y Wladwriaeth neu 65 (p'un bynnag sydd hwyrach). Os mai eich oed ymddeol arferol yw eich oed Pensiwn y Wladwriaeth, a bod hyn yn newid yn y dyfodol, felly hefyd bydd eich oed pensiwn arferol yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Gallwch ymddeol yn wirfoddol o 55 oed, ond fe all eich buddion pensiwn gael eu lleihau i ystyried taliad cynnar cyn eich oed ymddeol arferol. Fodd bynnag, mae'n bosibl y byddwch yn cael eich diogelu yn erbyn o leiaf rhan o'r gostyngiad hwn, o ganlyniad i'r Rheol 85 Mlynedd.

Pwynt i'w nodi

Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro mai'r oedran ymddeol isaf yw 55 oed ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych angen cymryd eich pensiwn yn gynt oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd hwn os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Gallech hefyd fod wedi'ch gwarchod os gwnaethoch drosglwyddo pensiwn blaenorol i'r Cynllun, os yw rhai amodau penodol wedi'u bodloni. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi'n tynnu eich pensiwn CPLIL y byddwch chi'n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu ichi dynnu eich pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Lle mae 55 yn cael ei nodi ar weddill y daflen ffeithiau hon, cofiwch y bydd hyn yn newid i 57 o 6 Ebrill 2028.

Beth yw'r Rheol 85 Mlynedd?

Gall y Rheol 85 Mlynedd ddiogelu ychydig o'ch buddion pensiwn neu eich buddion pensiwn i gyd rhag cael eu lleihau os ydych yn penderfynu ymddeol cyn eich oed ymddeol arferol. Mae lefel y diogelu yn dibynnu ar eich dyddiad geni. I fodloni'r Rheol 85 Mlynedd:

- mae'n rhaid i chi fod wedi bod yn talu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol rhwng 1 Ebrill 1998 a 30 Medi 2006, a
- rhaid i'ch oed yn ogystal â'ch aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (y ddau wedi eu mesur mewn blyneddau cyflawn) wneud cyfanswm o 85 o flynyddoedd neu fwy ar adeg eich ymddeoliad

Ydych chi'n cael eich diogelu o dan y Rheol 85 Mlynedd?

Os oeddech yn talu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar 30 Medi 2006 a'ch bod yn dewis ymddeol cyn eich oed ymddeol arferol, fe fydd gennych chi ychydig o elfen o ddiogelu cyn belled â'ch bod yn bodloni amodau'r Rheol 85 Mlynedd.

Os cawsoch eich geni rhwng 1 Ebrill 1956 a 31 Mawrth 1960

- Ni fydd buddion pensiwn a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2008 yn cael eu lleihau
- Bydd buddion pensiwn a gronnwyd rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2020 yn cael eu lleihau ar sail 'taprog' ar gyfer y cyfnod o'ch dyddiad gadael hyd at 65 oed (yr oed ymddeol arferol o dan gynllun 2008)
- Bydd buddion pensiwn a gronnwyd ar ôl 1 Ebrill 2020 yn cael eu lleihau yn llawn ar gyfer y cyfnod o'ch dyddiad gadael hyd at eich oed ymddeol arferol

Os cawsoch eich geni ar 1 Ebrill 1960 neu ar ôl hynny

- Ni fydd buddion pensiwn a gronnwyd hyd at 31 Mawrth 2008 yn cael eu lleihau
- Bydd buddion pensiwn a gronnwyd ar ôl 1 Ebrill 2008 hyd at y dyddiad y byddwch yn gadael yn cael eu lleihau'n llawn:
 - Ar gyfer eich aelodaeth o 1 Ebrill 2008 hyd at 31 Mawrth 2014, bydd y gostyngiad ar gyfer y cyfnod o'r dyddiad y byddwch yn gadael hyd at eich pen-blwydd yn 65 oed
 - Ar gyfer eich aelodaeth o 1 Ebrill 2014, bydd y gostyngiad ar gyfer y cyfnod o'r dyddiad y byddwch yn gadael hyd at eich oedran ymddeol arferol

Faint o ostyngiad fydd yn weithredol?

Bydd eich buddion pensiwn yn cael eu lleihau gan ddefnyddio canllawiau gan Adran Actiwari'r Llywodraeth. Bydd y cyfnod o'r dyddiad y byddwch yn gadael hyd at yr oed ymddeol priodol yn cael ei fesur mewn blyneddau a dyddiau. Mae hyn yn golygu y bydd canran y gostyngiad yn cael ei diwygio ar gyfer unigolion a fu'n gweithio rhan o'r flwyddyn.

Y Nifer o Flynyddoedd a Gaiff eu Talu'n Gynnar	Gostyngiad i'r Pensiwn Blyneddol	Gostyngiad i'r Cyfandaliad Awtomatig
0	0%	0%
1	4.9%	1.7%
2	9.3%	3.3%
3	13.5%	4.9%
4	17.4%	6.5%
5	20.9%	8.1%

Y Nifer o Flynyddoedd a Gaiff eu Talu'n Gynnar	Gostyngiad i'r Pensiwn Blynnyddol	Gostyngiad i'r Cyfandaliad Awtomatig
6	24.3%	9.6%
7	27.4%	11.1%
8	30.3%	12.6%
9	33.0%	14.1%
10	35.6%	15.5%
11	39.5%	Ddim yn berthnasol
12	41.8%	Ddim yn berthnasol
13	43.9%	Ddim yn berthnasol

A fydd y Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol os ydych yn ymddeol o 55 oed?

Gallwch ymddeol a derbyn eich buddion pensiwn o 55 oed heb ganiatâd eich cyflogwr. Os ydych yn dewis ymddeol yn wirfoddol rhwng 55 a 60 oed, ni fydd unrhyw elfennau diogelu'r Rheol 85 Mlynedd yn berthnasol yn awtomatig, a bydd eich buddion yn cael eu lleihau yn llawn. Fodd bynnag, mae gan eich cyflogwr ddisgresiwn i weithredu'r Rheol 85 Mlynedd ar gyfer ymddeoliadau rhwng 55 a 60 oed. Fe all gostio i'ch cyflogwr i ganiatáu hyn felly dylech siarad â nhw'n uniongyrchol ynglŷn â beth yw eu polisi.

Os ydych chi'n dewis ymddeol pan ydych yn 60 oed neu ar ôl hynny, bydd unrhyw ddiogelu gan y Rheol 85 Mlynedd yn dod yn weithredol yn awtomatig. Nid oes angen caniatâd eich cyflogwr.

Beth os cewch eich diswyddo neu os oes rhaid i chi ymddeol ar sail effeithlonrwydd?

Os cewch eich diswyddo gan eich cyflogwr neu os oes rhaid i chi ymddeol ar sail effeithlonrwydd a'ch bod yn 55 oed neu'n hŷn, bydd eich buddion pensiwn yn cael eu talu i chi ar unwaith heb unrhyw ostyngiadau. (Mae'n bosibl y bydd yna reolau newydd yn y dyfodol a fydd yn cyfyngu ar gyfanswm y gost y gall eich cyflogwr ei dalu i chi i ymddeol os cewch eich diswyddo neu os oes rhaid i chi ymddeol ar sail effeithlonrwydd. Os yw'r rheolau hyn yn newid, gallai hyn olygu ei bod yn bosibl y bydd angen gostwng eich buddion Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol pan fyddwch yn ymddeol os ydych yn cael eich diswyddo neu os oes rhaid i chi ymddeol ar sail effeithlonrwydd. Byddwn yn diweddarau ein gwefan pan fydd mwy o wybodaeth ar gael).

Beth os oes rhaid i chi ymddeol o ganlyniad i afiechyd?

Os oes rhaid i chi ymddeol o ganlyniad i afiechyd, bydd eich buddion pensiwn yn cael eu talu i chi ar unwaith heb unrhyw ostyngiad. Mae'n bosibl y byddant hyd yn oed yn cael eu cynyddu er mwyn cymryd eich afiechyd i ystyriaeth. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ein taflen ffeithiau ymddeol ar sail afiechyd yn yr **adran ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.